1550/111

PREGETH

YNGHYLCH

Rhodio gyda DUW.

1648

O Waith y Parchedig

Mr. GEORGE WHITFFILD, *A.B.*

YR AIL ARGRAFFIAD.

At ba un y'chwanegwyd

Ychydig o HYMNAU,

Gan NATHANIEL WILLIAMS,
o Lanwinio.

CAERFYRDDIN,

ARGRAFFWYD GAN IOAN ROSS. 1777.

AT Y

DARLLENYDD.

ANWYL GYDWLADWYR,

ER fy mod yn gweled fod llaweroedd o Hymnau a Phregethau wedi eu preintio eisoes, o Waith Awdwyr mwyaf enwog a ganodd neu a bregethodd yn yr Oes hon; etto, yn ol y Dawn sydd gennyf, yn Ofn DUW, mi a dafiaf hyn i'r Dryforfa, gan wybod fod DUW yn edrych ar y ddwy Hatling. Ac er nad yw 'r Hymnau mor rhagorol a llawer ag a ganwyd, y mae'r Bregeth mor rhagorol ag a breintwyd; ac er y dichon rhai Dynion edrych ar hyn yn ddirmygus, dichon DUW edrych yn barchus. Ar fod y cwbl yn ymddibennu er Gogoniant i'w Enw, a Lles Eneidiau, yw taer Ddymuniad

Eich gostyngedig Wasanaethwr,

N. W.

PREG-

PREGETH
YNGHYLCH
Rhodio gydâ DUW.

GEN. v. 24.
A rhodiodd Henoch gydâ DUW.

AMRYW yw'r rheſymmau y mae dynion llygredig yn ſynych haeru yn erbyn ufudd-dod i ſanctaidd a chyfiawn orchymynion Duw. Ond yſgatfydd, un o'r gwrthddadleuon mwya' cyffredin ag yr ydys yn ei wneuthur yw hon, ſef bod gorchymynion ein Harglwydd yn amhoſſibl i'w cyflawni, am eu bod yn wrthwyneb i gig a gwaed; ac yn ganlynol, ei fod yn Feiſtr caled, *yn medi lle ni's hauodd, ac yn caſglu lle ni's gwaſgarodd.* Dyma eſgus y gwas drwg a diog ym *Mat.* xxv. Ac yn ddiammau, dyma feddyliau llawer yn yr oes lygredig hon. Yr Yſrpryd Glân yn rhag-weled hyn, a gymmerodd ofal i yſprydoliaethu dynion ſanctaidd gynt i oſod i lawr ſiamplau amryw o wyr a gwragedd duwiol; pa rai, ïe dan yr hen Deſtament, a nerthwyd yn fywiol i gymmeryd iau Criſt arnynt, gan gyfrif ei waſanaeth ef yn berffaith rydd-did. Mae'r cof-reſtr helaeth o'r ſeintiau a'r merthyron a ſonir am danynt yn *Heb.* xi. yn egluro'r pwngc yma tu hwnt i bob amheuaeth. Pa gymmaint cwmmwl o dyſtion a oſodir yno o'n blaen! Pob un yn rhagori mewn ffydd, er bod rhai yn rhagori ar y lleill. Mae *Abel*, y merthyr cyntaf, yn blaenori. Ac yn neſaf ni welwn *Enoch*. Ac fe ddywedir am dano mewn modd rhagorol yn y teſtun, *A rhodiodd Henoch gydâ Duw.*

Wrth ymadroddi ar y geiriau, mi gaf (I.) ddangos, beth a feddylir wrth *rodio gydâ Duw*, (II.) Goſod i lawr rai moddion, trwy arferyd pa rai, y gall pobl grediniol

gynnal a maentuwmio eu *rhodiad gydâ Duw*; a chwedi'n ddibennu gydâ gair neu ddau o gynhwyfiad.

Ac (I.) beth a feddylir wrth *rodio gydâ Duw*. Ac wrth hyn a feddylir (1.) bod gelyniaeth arglwyddiaethol calon dyn gwedi dynnu ymaith gan Yſpryd Duw. Yſgatfydd, fe all rhai ddywedyd, Caled yw'r ymadrodd hwn; ond mae'n profiad beunyddiol yn egluro'r peth mae'r yſgrythurau yn eu manegi mewn amryw fannau, bod *meddwl cnawdol* y dyn naturiol ſydd heb ei ail-eni, ïe, bod meddwl yr hwn a ail-enir, mor belled ac y mae un rhan o hono heb ei gwbl adnewyddu, nid yn unig yn elyn, ond *yn elyniaeth* ei hun *yn erbyn Duw*; fel *nad yw yn ddaroſtyngedig i gyfraith Duw*, ac yn wir *ni ddichon bod*. Yn wir, fe all un ryfeddu bod gan un creadur, yn enwedig bod gan y creadur hoff o ddyn, a grewyd ar ddelw ei Greawdwr, elyniaeth, llawer llai gelyniaeth gorchfygol yn erbyn y Duw hwnnw ym mha un mae'n byw, yn ſymmud, ac yn bod. Ond, och! felly y mae; eiſ rhieni cyntaf a dynnodd y clefyd hyn arnynt pan ſyrthiaſant oddiwrth Dduw, trwy fwytta o'r ffrwyth gwaharddedig, a'r gwenwyn marwol o hono a lygrodd eu holl hiliogaeth. Fe ymddangoſodd y gelyniaeth yma yn *Adda* yn ceiſio ymguddio ei hun ymyſg prennau'r ardd; pan glywodd lais Duw, yn lle rhedeg â chalon agored, gan ddywedyd, Wele fi; och! nid oedd arno eiſiau cymmundeb â Duw yn awr. A'r gelyniaeth yma ymddangoſodd yn eglurach trwy'r eſgus a wnaeth i'r Goruchaf, *Y wraig a roddaiſt gyd â mi, hi a roddodd i mi, a mi a fwyteais*. Trwy ddywedyd yn llyn, mae eſe yn goſod y bai ar Dduw; fel pe dywedaſai, Oni buaſai i ti roddi y wraig i mi, ni phechaſwn i'th erbyn; am hynny, ti a elli ddiolch i ti dy hun am fy nhroſedd. Mae'r gelyniaeth yma yn rheoli ym mhob dyn a darddo allan o'i lwynau ef. O ba le mae'r gwrthwynebrwydd a welir mewn plant, ïe, mewn hen bobl at ddyledſwyddau ſanctaidd a gweddio yn tarddu; a'r holl bechod amlwg a drygioni ſy'n cuddio wyneb y byd fel diluw? beth ydynt ond ffrydiau o'r ffynnon erchyll hon, ſef allan o'r gelyniaeth ſydd yng nghalon ddrwg a thwyllodrus pob dyn? Y ſawl nid addefo mai gwir yw hyn, ni wyr ddim yn iachuſol am yr yſgrythurau, na gallu Duw. A phawb a wyddant hyn, a addefant

yn

yn ebrwydd, fod yn rhaid, cyn y gellir dywedyd bod un dyn yn rhodio gydâ Duw, i'r gelyniaeth ſydd yn y galon gael ei ddiſtrywio. Canys ni all dau elyn gydrodio. Daliwch ſylw, mae'n rhaid i'r gelyniaeth arglwyddiaethol yma gael ei ſymmud ymaith. Canys ni thynnir ymaith o'r bod o hono yn hollol, hyd oni roddom ni i fynu'r yſpryd. Mae'r apoſtol *Paul* yn dywedyd am dano efe ei hun, nid pan yr oedd efe yn Phariſead, ond yn Griſtion gwirioneddol; pan yr oedd yn achwyn, *pan yr oedd yn ewyllyſio gwneuthur da, fod drwg yn breſennol gyd ag ef*; nid yn arglwyddiaethu arno, ond yn gwrthſefyll yn ei ddymuniadau da ef, *fel nad allai wneuthur y peth yr oedd yn ei ewyllyſio*, mor berffaith ag y mynnai'r dyn newydd. Hyn yw'r peth mae e'n galw *y pechod ſydd yn trigo ynddo ef*. Ond am ei arglwyddiaeth, mae'n cael ei ddirymmu ym mhob enaid a aned yn wirioneddol o Dduw, ac yn cael ei wanhau yn raddol fel bo'r credadyn yn cynhyddu mewn gras, ac Yſpryd Duw yn cymmeryd fwy-fwy o afael ar ei galon.

Ond (2.) wrth *rodio gydâ Duw*, y meddylir bod perſon dyn wedi ei heddychu â Duw'r Tad, yn a thrwy holl-ddigonol gyfiawnder a iawn ei anwyl Fab. *A rodia dau ynghyd*, medd Salomon, *heb fod yn gyttun?* Yr Iefu yw'n heddwch, yn gyſtal a'n heddychwr. Pan gyfiawnheir ni trwy ffydd yng Nghriſt, y pryd hynny, ac nid cyn hynny, mae gennym heddwch tuag at Dduw; ac yn ganlynol, hyd hynny, nid allwn rodio gydâ Duw. Rhodio gyd ag un ſydd arwydd ein bod yn gyfeillion i'r cyfryw, neu o'r lleia', os buom unwaith yn elynion, etto ein bod yn awr gwedi ymheddychu drachefn. Dyma waith gweinidogion Duw. *Ynom ni y goſodwyd air y cymmod*; megis *cenhadau dros Griſt, yr ydym yn erfyn ar bechaduriaid dros Griſt i'w cymmodi â Duw*; a phan ufuddhaont i'r gwahoddiad graſol, a thrwy ffydd yn cael cymmod â Duw, y pryd hynny, ac nid hyd hynny, y gellir dywedyd eu bod hwy yn dechrau *rhodio gydâ Duw*.

(3.) Mae *rhodio gydâ Duw* yn dal allan cymmundeb a chymdeithas feunyddiol a pharhaus gyd ag ef, neu fel y dywed yr yſgrythur, *bod yr Yſpryd Glân yn trigo ynom*. Dyma addewid ein Harglwydd i'w ddilyblion,

y cai'r Yſpryd Glân ſod ynddynt, a chyd â hwynt; nid fel teithiwr dros noſwaith, ond i wneuthur ei drigfa yn eu calonnau. Hyn, i'm tyb i, yw meddwl St. *Ioan*, pan yw yn chwedleua am ddyn ſy'n *aros* yng Nghriſt, ac *yn rhodio megis y rhodiodd* yntef. A dyma'r peth a feddylir yn bennaf yng ngeiriau'r teſtun, *A rhodiodd Henoch gyda Duw*; hynny yw, fe a faentuwmiodd gymmundeb a chyfeilliach ſanctaidd â Duw, yn a thrwy Ieſu Griſt.

(4.) Wrth *rodio gyda Duw*, mae i ni feddwl cynhyddu mewn bywyd duwiol. Rhodio, wrth yr olwg gyntaf, ſy'n arwyddoccau mynediad ymlaen. Mae'r dyn a rodio, er ei fod yn ſymmud yn araf, etto mae'n myned ymlaen, ac nid yw'n aros yn yr un man. Felly mae gyd â'r rhai a rodiant gydâ Duw. *Hwy ant*, fel y dywed y Salmydd, *o nerth i nerth*; neu yng ngeiriau *Paul*, *Hwy ant o ogoniant i ogoniant, trwy Yſpryd yr Arglwydd.* Yn ddilys, mewn un yſtyr, nid yw'r bywyd yſprydol yn cynhyddu, nac yn lleihau. Pan enir enaid o Dduw, mae yn wir blentyn i Dduw; ac er iddo fyw hyd oes *Methuſela*, etto ni byddai ond plentyn i Dduw yn ol y cwbl. Ond, mewn yſtyr arall, mae'r bywyd duwiol yn lleihau ac yn cynhyddu. Fel hyn y gwelwn ni Dduw yn cwyno ar wrthgiliadau ei bobl, ac yn colli eu cariad cyntaf. Ac o herwydd hyn, ni glywn am *blant bychain, gwyr ieuainc, a thadau yng Nghriſt*; a St. *Paul* yn cynghori *Timotheus, ſod ei gynnydd yn eglur i bawb. Cynhyddwch mewn gras, a gwybodaeth ein Harglwydd Ieſu Griſt*, medd St. *Pedr* wrth Griſt'nogion. Canys mae'r creadur newydd yn cynhyddu mewn maintioli yſprydol; ac er nad all credadyn ond bod yn greadur newydd, etto mae rhai yn mwynhau helaethach graddau o'r duwiol anian nag eraill, ac ar ol angeu hwy gânt ſwy o ddedwyddwch. O eiſiau ſylwi ar y gwahaniaeth yma, mae rhai dynion duwiol, ſy' â gwell calonnau nâ phennau ganddynt, yn ddiarwybod yn ſyrthio i egwyddorion Antinomaidd, gan wadu cynnydd mewn gras, a'r nodau o ras y rhai a oſodir i lawr yng ngair y gwirioned. Rhag y cyfryw egwyddorion, ac yn enwedigol rhag yr ymarferion ſydd yn naturiol yn tarddu o honynt, bydded i Arglwydd yr arglwyddi ein gwaredu ni!——Trwy ba foddion mae i bobl grediniol faentuwmio a chynnal eu *rhodiad gyda Duw* ſydd i mi yſtyried yn yr ail le.

(1.) Mae

(1.) Mae hyn yn cael ei wneud trwy ddarllain gair Duw. *Chwiliwch yr ysgrythurau*, medd ein Harglwydd bendigedig. A'r Salmydd a ddywed, *Llusern yw dy air i'm traed, a llewyrch i'm llwybr.* Ac y mae efe yn ei wneuthur yn un briodoliaidd o wr da, bod *ei ewyllys yng nghyfraith yr Arglwydd, ac yn myfyrio yntho ddydd a nos. Glyn wrth ddarllain*, medd *Paul* wrth *Dimotheus.* Ac *y mae gair Duw yn fuddiol i argyhoeddi, i geryddu, ac i hyfforddi mewn cyfiawnder; fel y byddo dyn Duw yn berffaith, wedi ei* gyflawn ddarparu *i bob gweithred dda.* Os awn ni unwaith uwchlaw'n biblau, a throi heibio gair Duw o fod yr unig rheol o'n ffydd a'n hymarferiad, ni fyddwn yn ebrwydd yn agored i bob hudoliaeth, ac mewn perygl o wneuthur llong-ddrylliad o ffydd a chydwybod dda. Ein Harglwydd bendigedig, er iddo gael dawn yr Yspryd Glân heb fesur, etto yn wastad a gymmerodd ei reoli gantho, ac ymladdodd â'r diawl gydâ *'Sgrifenwyd.* Hwn a eilw'r Apostol *Cledd'yf yr Yspryd.* Ni allwn ddywedyd am dano, fel y dywedodd *Dafydd* am gleddyf *Goliath, Nid oes cyffelyb iddo.* Fe elwir yr ysgrythurau Ymadroddion bywiol Duw; nid yn unig am eu bod yn cael eu harferu yn gyffredin i'n hadgenhedlu, ond hefyd i gynnal ac i gynhyddu'r bywyd ysprydol yn yr enaid. Mae St *Pedr* yn ei ddewis o flaen gweled Crist yn ei wedd-newidiad ar y mynydd. Canys, yn ol iddo ddywedyd, *y llef, yr hon a ddaeth o'r nef, a glywsom ni, pan oeddem gyd ag ef yn y mynydd.* Mae'n chwanegu, *mae gennym air sicrach y Prophwydi; yr hwn da y gwnewch fod yn dal arno, megis ar ganwyll yn llewyrchu mewn lle tywyll, hyd oni wawrio'r dydd, ac oni chodo'r seren-ddydd yn eich calonnau chwi*; hynny yw, hyd ne's delo angeu, ac y cawn gweled yr Iesu wyneb yn wyneb. Hyd hynny, rhaid i ni weled ac ymddiddan ag ef trwy ddrych ei air ef. Rhaid i ni wneuthur ei dystiolaethau yn gynghorwyr i ni, ac yn feunyddiol, gydâ *Mair*, eistedd wrth draed yr Iesu, yn gwrando ei air trwy ffydd. Fel hyn trwy brofiad melus cawn adnabod mai yspryd a bywyd ydynt, bwyd yn wir, a diod yn wir i'n heneidiau.

(2.) Mae pobl gredinïol yn cadw a chynnal eu *rhodiad gyda Duw* trwy weddi ddirgel. Mae yspryd gras ac yspryd ymbiliau yn wastad yn cyd-ddyfod.

Anadl

Anadl y creadur newydd yw gweddi, gwintyll y bywyd duwiol, trwy ba un mae gwreichionen o'r tân ſanctaidd, a gynneuwyd yn yr enaid gan Dduw, nid yn unig yn cael ei gadw i mewn, ond yn cael ei gynnu yn ffiam oleu. Eſgeuluſo gweddi ddirgel ſu achos yn fynych i dynnu amryw glefydon yſprydol, ac o ganlyniadau chwerwon eraill. Fe ſylwodd *Origen*, "Y dydd "yr offrymmodd efe aberth i'r eilun, iddo fyned allan "o'i yſtafell heb weddi ddirgel." Un o'r rhannau mwyaf rhagorol o arfogaeth y Criſtion yw, *Gan weddio yn waſtadol*, medd yr Apoſtol, *a phob rhyw weddi. A gwiliwch a gweddiwch*, medd ein Harglwydd, *fel nad elocb i brofedigaetb. Ac efe a lefarodd ddammeg, fod yn rhaid gweddio yn waſtad, ac heb ddiffygio.* Nid yw yn gorchymmyn i ni fod yn waſtad ar ein gliniau, neu yn ein yſtafelloedd, er eſgeuluſo'n dyledſwyddau teuluaidd. O gweddi, gweddi! mae'n dwyn ac yn cadw Duw a dyn ynghyd. Mae'n codi dynion at Dduw, ac yn tynnu Duw i lawr at ddyn. Os chwennychwch, bobl grediniol, gadw i rodio gydâ Duw, *gweddiwch, gweddiwch yn ddibaid.* Byddwch ddyfal mewn gweddi ddirgel. A phan fyddoch ynghylch eich gorchwylion bydol, danfonwch o amſer i amſer lythyrau byrrion i'r nef ar adenydd ffydd. Hwy a gwrddant â chalon Duw, ac a ddychwelant yn llwythog attoch, gydâ bendithion yſprydol.

(3.) Myfyrdod ſanctaidd ſydd foddion buddiol i gadw rhodiad credadyn gydâ Duw. "Gweddi, darllain, "profedigaeth, a myfyrdod, medd *Luther*, ſy'n gwneu-"thur gweinidog;" ac y mae nhwy hefyd yn gwneuthur ac yn cadw Criſtion. Mynych y myfyriai *Dafydd* ſanctaidd, ïe liw nos. Ni ddarllenwn hefyd am *Iſaac* yn myned allan i'r maeſydd i fyfyrio yn y prydnhawn; neu fel ag y mae yn y margin, i weddio. Canys myfyrdod math o weddi ddiſtaw yw, trwy ba un y mae'r enaid yn fynych megis yn cael ei ddwyn allan o'i hunan at Dduw, ac mewn gradd yn cael ei wneuthur yn gyffelyb i'r yſprydion bendigedig, y rhai ſy'n waſtad yn gweled wyneb ein Tad nefol. Nid all neb, ond yr eneidiau dedwydd hynny, y rhai a arferaſant y dyledſwydd dduwiol yma, ddywedyd pa gymmaint mae myfyrdod yn cynhyddu'r bywyd yſprydol. *Tra'r oeddwn*

yn

yn myſyrio, medd Dafydd, *ennynodd tan*. A tra mae'r credadyn yn myſyrio ar weithredoedd a gair Duw, yn enwedigol ar y weithred honno o weithredoedd, y rhyfeddod hwnnw o ryfeddodau, y dirgelwch hwnnw o dduwioldeb Duw gwedi ymddangos yn y cnawd, Oen Duw wedi ei ladd dros bechodau'r byd; mynych mae yn teimlo tân duwiol yn ennyn fel nad all ef lai nâ llefaru â'i dafod, a datgan mawr ddaioni'r Arglwydd i'w enaid. Myſyriwch yn fynych, pawb o honoch ag ſy'n dymuno cadw a chynnal rhodiad agos ac uniawn gyd â'r Duw goruchaf.

(4.) Mae pobl grediniol yn cynnal eu *rhodiad gyda Duw*, trwy wilied a dal ſulw ar ei ragluniaeth ef tu ag attynt. Os credwn yr yſgrythurau, mae yn rhaid i ni gredu'r peth mae ein Harglwydd wedi mynegi ynthynt, ſef bod *ïe holl wallt ein pen wedi eu cyfrif*, ac *ni ſyrth aderyn y tô ar y ddaear heb ein Tad ni*. Mae pob croes a galw yntho, ac ym mhob tro o ragluniaeth mae rhyw ddiben er atteb y peth y danfonwyd o'i blegid. Os o natur gyſtuddiol yw, mae Duw yn dywedyd yntho, "Fy Mab, ymgadw oddiwrth eilunod." Os o natur llwyddiannus, mae efe trwy lais diſtaw yn llefaru, "Fy "Mab, moes i mi dy galon." Os chwennychwch rodio gydâ Duw, rhaid i chwi o amſer i amſer wrando ar lais yr Arglwydd yn ei ragluniaeth. Yn llyn y gwelwn i was *Abraham*, pan aeth i ymofyn gwraig i'w feiſtr *Iſaac*, wilied rhagluniaeth Duw, a thrwy'r modd hyn gael y wraig a ddarparaſai Duw i'w feiſtr. "Canys amnaid "bychan oddiwrth ragluniaeth, medd eſgob duwiol "*Hall*, digon yw i ffydd i ymborthi arno." Ac fel yr wy'n credu mai rhan o'n dedwyddwch yn y nefoedd fydd edrych yn ol ar y gadwyn auraidd a'n tynnodd ni yno; felly y rhai ſydd yn mwynhau mwyaf o'r nefoedd yma, 'rwy'n credu, fyddant yn fanylaf yn dal ſulw ar amryw weithrediadau Duw tu ag attynt yn ei ragluniaeth yma ar y ddaear.

(5.) Tuag at *radio* yn agos *gyda Duw*, rhaid i'w blant nid yn unig wilied pob tro o'i ragluniaeth o'r tu allan, ond hefyd y cynhyrfiadau o'i lân Yſpryd yn eu calonnau. Cynnifer ag ſydd blant i Dduw a arweinir gan Yſpryd Duw, gan roddi eu hunain i fynu i'w tywys gan yr Yſpryd Glân, fel ag y mae plentyn bach yn rhoddi

ei

ei law i'w fammaeth. Yn yr yſtyr yma yn ddiammeu rhaid ein *troi* ni, a dyfod fel *plant bychain*. Ac er mai yr Enthuſiaſm eithaf yw, i neb gymmeryd arno gael ei arwain gan yr Yſpryd heb y gair yſgrifenedig; etto rhwymedig ddyled pob Criſtion yw cymmeryd ei arwain gan yr Yſpryd yn gyttunol â'r gair. Gwiliwch gan hynny, 'rwy'n attolwg, O bobl grediniol, gynhyrfiadau Glân Yſpryd Duw yn eich eneidiau, a phrofwch yn waſtad yr yſgogiadau a'r argraffiadau a deimloch ar yr un amſer, wrth reol didwyll air Duw. Ac os ni chyttunant â'r gair, taflwch hwynt ymaith fel dieflig a thwyllodrus. Trwy ddal ſulw ar y rhybudd yma, chwi rodiwch yn union-gyrch rhwng y ddau gamſynied alaethus mae amryw o'r genhedlaeth hon mewn perygl o redeg iddynt, ſef Enthuſiaſm ar y naill law, a * Deiſtiaeth ar y llaw arall.

(6.) Y rhai a chwennychont *rodio* 'n ſanctaidd *gyda Duw*, rhaid iddynt rodio gyd ag ef yn ei ordinhadau, yn gyſtal ag yn ei ragluniaethau, &c. Mae'n yſgrifenedig am *Zacharias* ac *Eliſabeth*, iddynt *rodio yn holl orchymynion ac ordinhadau Duw yn ddiarg yoedd*. Ni edrych un Criſtion ſylweddol ar yr ordinhadau fel *egwyddorion ffodion*, ond megis pibellau, trwy ba rai mae'r JEHOFA anfeidrol yn ymddaroſtwng i gyfrannu ei ras i'n heneidiau. Fe edrych arnynt fel bara'r plant, a'u rhagorfreintiau pennaf. Yn ganlynol, bydd hyfryd ganddo pan ddywedo eraill wrtho, *Dewch, awn i dŷ'r Arglwydd*. Y cyfryw a hoffant drigfan ei dŷ, a lle preſwylfa ei ogoniant, ac yn awyddus a fyddant i gofleidio pob odfa i *ddangos marwolaeth yr Arglwydd oni ddelo*.

(7.) Os dymunech *rodio gyda Duw*, eich cyfeillion chwi a fydd y rhai fy'n rhodio gyd ag ef. Felly 'roedd ef gydâ *Dafydd*. Yr oeddent yn ei olwg ef *y rhai rhagorol-ar y ddaear*. Y prif Griſt'nogion yn ddiammeu gadwaſant yn fywiol eu cariad cyntaf, trwy barhau yng nghyfeillach y naill gyd â'r llall. Yr oedd St. *Paul* yn deall hyn yn hollol, am hynny mae'n cynghori'r Criſt'nogion i *edrych* atto, *nad eſgeuluſont eu cyd-gynhulliad eu hunain*. Canys pa fodd y cynheſa'r unig? Ac oni ddy-

* Y Deiſtiaid yw'r bobl hynny ag ſydd yn gwadu crefydd datguddiedig, ac yn ganlynol fod y Bibl yn air Duw.

ddywedodd y doethaf o ddynion wrthym, *Haiarn a ha-ga haiarn, felly gwr a hoga wyneb ei gyfaill?* Mae'n angenrhaid i bawb a chwennychont rodio gydâ Duw, a chadw crefydd yn fywiol, gyd-gyfarfod mor fynych ag a allont er ymannog eu gilydd i gariad a gweithredoedd da.

Ac yn awr, beth a ddywedaf er eich cynhyrfu chwi, ïe chwy-chwi y rhai ydych etto ddieithriaid i Grift, i ddyfod a rhodio gydâ Duw? Dewch, gwifgwch am danoch yr Arglwydd Iefu Grift. Dewch, bryfiwch i *rodio gyda Duw*; ac na wnewch rhag-ddarbod dros y cnawd, er mwyn cyflawni ei chwantau ef. Pwylla, pwylla, O bechadur. Dychwelwch, dychwelch, O annuwiolion. Canys diwedd y ffordd yr ydych yn awr yn rhodio ynthi, er uniawned mae'n dangos yn eich golwg tywyll chwi, yw angeu, fef diftryw tragywyddol enaid a chorph. Nac oedwch, meddaf: ar eich perygl yr wyf yn gorchymyn i chwi beidio myned un cam mwyach yn y ffordd yr ydych yn awr yn cerdded ar hyddi. Canys, pa fodd y gwyddoft, O ddyn, nad all y cam nefaf dy ddodi di yn uffern? Fe all angeu a barn dy orddiwes; ac yno, fe ficrheir agendor fawr rhyngot ti a dedwyddwch dros byth. Meddyliwch am y pethau hyn, chwi y rhai ydych anfoddlon i *rodio gyda Duw*. Gofodwch hwynt at eich calon. Dangofwch eich hunain yn wyr; ac yng ngallu'r Iefu, cenwch yn iach i chwant y cnawd, a dywedwch, Ni rodiwn mwyach gydâ chwi. Yn iach i chwant y llygad, a balchder y bywyd. Yn iach i'n cyfeillion cnawdol, a gelynion y groes, ni rodiwn ac ni fyddwn gyfeillgar â chwi mwyach. Groefaw'r Iefu, ei air, a'i ordinhadau, groefaw dy Lân Yfpryd, groefaw dy bobl, nyni a rodwn bellach gydâ chwi. O na byddai'r fath feddwl ynoch! Y Duw mawr a gadarnha eich bwriad, ac a ddod fel fawr y nefoedd wrtho, ïe fel ei Lân Yfpryd. Ie, fe a'i gwna, er i chwi rodio yng nghyndynrwydd eich calonnau drwg twyllodrus, er pan eich ganed. Fel hyn y dywed y Goruchel a'r Dyrchafedig, medd y JEHOFA mawr, yr hwn a breswylia dragywyddoldeb, *Mi a breswyliaf gyd a'r cyftuddiedig a'r ifel o yfpryd, ag fydd yn crynu wrth fy ngair.* Gwaed, ïe gwaed gwerthfawr Iefu Grift, os

dewch

dewch at y Tad trwyddo ef, a'ch glanha chwi oddiwrth bob pechod.

Ond mae'r teſtun yn ſy arwain i chwedleua a chwi'r ſeintiau, yn gyſtal a chwitheu bechaduriaid annychweledig. Nid rhaid i mi ddywedyd wrthych, bod *rhodio gyda Duw* yn anrhydeddus, yn felus, ac yn fuddiol. Canys chwi a'i gwyddoch trwy happus brofiad. Ac a'i cewch ef felly fwy-fwy beunydd. Ond yn unig rhowch gennad i mi i gyffroi eich meddyliau puraidd, trwy ddwyn ar gof i chwi, ac i erfyn arnoch, er trugareddau Duw yng Nghriſt Ieſu, i edrych attoch eich hunain, a rhodio'n fwy agos at eich Duw nag yn y dyddiau gynt. Canys pwy agoſaf y rhodioch gydâ Duw, mwyaf y fwynhewch o hono ef, preſennoldeb pa un ſydd fywyd, ac a fyddwch yn fwy addas i eiſtedd ar ei ddeheulaw, lle y mae digrifwch yn dragywydd. Oh! na chanlynwch yr Ieſu o hirbell; ac na fyddwch mor ffurfiol, marwaidd ac oer yn diſgwyl wrth ordinhadau Duw. Nac eſgeuluſwch eich cyd-gynhulliad eich hunain, ac na fyddwch mor glaiar ynghylch pethau Duw. Cofiwch eiriau'r Ieſu wrth eglwys Laodicea, *Am nad wyt yn oer nac yn frwd, mi a'th chwynaf di allan o'm genau.* Cofiwch gariad yr Ieſu, a bydded i'w gariad ef eich cymmell i gadw yn agos atto; ac er y bydd i chwi farw drofto, na wadwch ef, na chedwch o hirbell oddi wrtho mewn modd yn y byd.

Un gair i'm brodyr yn y weinidogaeth, ac yno mi a orphenaf. Onid yw'r teſtun yn llefaru mewn modd neilltuol i'r ſawl ſydd wedi eu anrhydeddu cymmaint ac i'w gael eu galw yn genhadau i Griſt ac yn oruchwilwyr ar ddirgeledigaethau Duw. Mae'n debygol iawn fod *Enoch* yn un o ſefyllfa gyhoeddus, ac yn bregethwr gwreſog, *Jud.* xiv. Er ei fod ef wedi marw, etto onid yw e'n llefaru i nyni, i fywioccau ein zel, a'n gwneuthur ni yn fwy bywiog yng ngwaſanaeth ein gogoneddus a byth fendigedig Arglwydd? Pa fodd y pregethodd *Henoch?* Pa fodd y *rhodioch Henoch gyda Duw*, er iddo fyw mewn cenhedlaeth ddrwg a godinebus? Bydded i ni am hynny ei ganlyn ef, megis ag y canlynodd ef Ieſu Griſt, a chyn bo hir lle y mae ef yno y byddwn ninneu hefyd. Mae efe yn awr wedi myned i mewn i'w orphwyſfa. Etto ymhen ychydig bach, a

ninneu

ninneu hefyd a gawn fyned i mewn i'n heiddo ninneu, a hynny lawer gynt nag yr aethef. Fe ymdeithiodd ynn iſod dros dri chant o flynyddoedd. Ond, bendigedig a fo Duw, mae dyddiau dyn wedi eu byrrhau, ac ymhen ychydig o ddyddiau ein gwaith ni a fydd wedi ei orphen. Mae'r Barnwr yn ſefyll wrth y drws. Yr hwn ſydd yn dyfod a ddaw, ac nid oeda. Ei wobr ſydd gyd ag ef. A nyni i gyd a gawn (os ydym yn wreſog tros Arglwydd y lluoedd) cyn bo hir ddiſgleirio fel y ſer yn y ffurfafen, yn nheyrnas ein Tad nefol, dros byth bythol. Iddo ef, y Ieſu bendigedig, a'r Yſpryd tragywyddol, y byddo pob anrhydedd a gogoniant yn awr ac i bob tragywyddoldeb. Amen, ac Amen.

DIWEDD.

HYMN I.

Duwiol Hiraeth am fod ar ben fy Ngyrfa, o Swn y Byd a'i Ryfel.

1 HEnffych i'r boreu tawel,
Caf bechod dan fy nhra'd,
A chyflawn adnabyddiaeth
O'r iachawdwriaeth rad;
Pryd hyn mi gana'n beraidd,
A rhyw nefolaidd don,
A'm henaid bach yn nofiad
Yng nghariad addfwyn O'n.

2 O'r Iachawdwriaeth werthfawr!
Anfeidrol haeddiant gwa'd!
A lifodd fel yr afon
O ddwyfol gariad rhad!
Ceir gwel'd y gwaredigion
Yn hon yn hardd eu gwedd,
Yn chwarae eu haur delynau,
Yr ochor draw i'r bedd.

3 Trwy waed yr Oen yn unig,
'Rwy'n diſgwyl gwir ryddhad,
Yn rhîn y gwaed y mentraf,
Yn eon at y Tad;
Trwy rhîn y gwaed y plediaf
Fendithion marwol lo's,
Ac am y gwaed y canaf,
O'r boreu hyd y nos.

HYMN II.

Hiraeth am Deyrnaſiad CRIST o Fôr i Fôr.

1 MAE torf yng nglyn terfyniad,
Yn rhedeg yn y bla'n,
Ymhlith hiliogaeth Adda,
A'u gyrfa tu a'r tân;

O Ar-

O Arglwydd galw etto
Rhai'n filoedd myrdd i ma's,
I'th ganu a'th ryfeddu,
A chanu am dy ras.

2 Mae hiraeth yn fy nghalon
Am wel'd y dedwydd ddydd,
I dorf o garcharorion
Gael d'od o'u rhwymau'n rhydd;
A'r arfaeth fawr drag'wyddol
I eſgor arni had,
Yn lluoedd wedi eu golchi,
A'u cannu yn y gwa'd.

3 O Arglwydd llanw'n daear
Ag argyhoeddiad llym,
A boed i'th air heb oſteg
I redeg yn ei rym;
Buddugoliaetha'n hollol,
Ar uffern fawr a'r bedd,
A thyn i lawr golofnau,
A dal dy blant mewn hedd.

HYMN III.

Cynhwyſiad nefol Gân.

1 MAE'r ſeintiau a'r angylion
Yn gyſon bawb o'r cyd,
Yn ſeinio'r gân nefolaidd
O fewn angylaidd fyd,
Yn un â'r pererinion,
Trigolion ar y llawr,
Ne's cwrdd mewn cyd-gynghanedd,
O flaen yr orſedd fawr.

2 Mewn nefol gân yn gyſon
Mae cofio coron ddrain,
A chanu am yr hoelion,
A chofio piccell fain,
A chanu cwppan chwerw,
A chofio croeſbren ûr,
A chanu am y boreu
Y rowd ein traed yn rhydd.

3 Yn hon mae ſwn neſolaidd,
Telynau fel y dail,
Yn canu ac yn canmol,
Am gariad Adda'r ail,
Yn un â'r llu angylaidd,
I oeſoedd rif y gwlith,
Ac er cael trag'wyddoldeb,
Ni dderfydd canu byth.

HYMN IV.

Myfyrdod y Gwaredigion.

1 MAE miloedd yn rhyfeddu,
Waith bod eu henwau fry,
A'u dyled wedi ei dalu
Ar fynydd Calfari;
A'u pechod wedi ei faddeu,
A'i glirio yn y gwa'd,
Waith hyn bydd melus ganu
Am Iachawdwriaeth rad.

2 Ymhen rhyw ennyd fechan
Fe fydd y Ieſu hael
Yn caſglu ei waredigion
Sydd yn y byd yn wael,
A'u dwyn hwy draw i Seion,
Gan bledio gwerth ei wa'd,
Waith hyn bydd melus ganu
Am Iachawdwriaeth rad.

3 Pan darffo ein taith drafferthus,
A myn'd i'r Ganaan draw,
Pob un a'i wiſg wen gannaid,
A phalmwydd yn ei law
'N teyrnaſu gyd â'r Ieſu,
Fyth fyth ger bron y Tad;
Pryd hyn bydd melus ganu
Am Iachawdwriaeth rad.

HYMN V.

Hiraeth am Fwynhad o DDUW.

1 O Tyred Arglwydd mawr,
Datguddia i mi 'nawr
Dy hyfryd wedd;
Rho olwg ar y wlad,
A brynaiſt ti â'th wa'd,
Gartrefle pur fy Nhad,
Tu draw i'r bedd.

2 Mae'th iechydwriaeth di
Yn llenwi'r nefoedd fry,
A'r ddaear hon;
Trag'wyddol gariad rhad,
Ac effaith dwyfol wa'd,
A'r archoll fawr a wna'd
O tan dy fron.

3 Hon ydyw'r afon bur,
Sydd fel y griſial clir,
Yn tarddu ma's,
O dan yr orſedd fry,
Yn ffrydiau diſglair cry',
Bendithion yn ddiri',
O ddwyfol ras.

HYMN VI.

Hiraeth am Lewyrch Wyneb yr OEN mewn Cyſtudd.

1 MAE'r gwynt yn chwythu'n gry'
Ar y daearol dŷ'
O'r babell hon;
Par'toa, Arglwydd Dduw,
Yr adeiladaeth wiw,
Tŷ llwyr, nid o waith llaw,
Fyth ger dy fron.

2 Mae'r gwynt yn chwythu'r don,
Mae'n curo ar fy mron,
Ni wn i beth a ddaw:
Goftega, Arglwydd Ior,
Y terfyfg fydd ar fôr,
A dwg fi tu a'r cor,
Yr ochor draw.

3 Attolwg, Arglwydd cu,
Yn fanol arwain fi
Tu fewn i'r llen;
Datguddia, nefol Dad,
Y Iachawdwriaeth rad
Yn rhodd yn rhin y gwa'd
I mi, Amen.

HYMN VII.

Ymdrech mewn Rhyfel yng nghanol Mwg a Thân.

1 ER llid gelynion o bob rhyw,
Er gwaetha'r byd a'i wg,
Mae tynfa'm henaid yn y blaen,
Trwy ganol tân a mwg.

2 'Does genny' ngwyneb calon ddu,
Ac uffern fawr a'r nef,
Ond golwg tua Chalfari
Ar ei gyfiawnder ef.

3 O dan ei aden dawel ef
Yr erys f'enaid gwan,
Ne's elwy' dros y mynydd draw,
I Seion yn y man.

HYMN VIII.

Chwant ymddattod, a bod gydâ CHRIST.

1 MAE arna'i hiraeth am y wlad,
Ca'i gnawd a llygredd tan fy nhra'd,
A fatan gas, ac uffern gry',
I roi ffarwel i'm henaid i.

2 Wrth

2 Wrth feddwl am y wlad o hedd,
'Rwyf yn hiraethu am y bedd,
Gael myn'd yng nghol angylaidd lu,
I mewn i'r fro nefolaidd fry.

3 Rho ddw'r o'r ffynnon bur i mi,
Agorwyd ar ben Calfari;
A dal fy enaid yn dy law,
A dwg fi mewn i'r bywyd draw.

HYMN IX.

Golwg trwy ffydd ar Wlad yr Addewid.

1 O Ch'neidiau pur fy Nuw,
Dioddefaint angeu'r gro's,
Yw nerth a grym fy enaid prudd,
Bob dydd bob nos:
Y tirion addfwyn Oen,
Fu farw yn fy lle,
A ddwg fy enaid yn ei law,
Draw draw i dre'.

2 Pryd hyn bydd genny' wisg,
A olchwyd yn y gwa'd,
Cyfiawnder pur cyfrifol Crist,
Ger bron fy Nhad,
Ymhlith angylaidd lu,
A thelyn yn fy llaw,
I ganu congcweſt Calfari,
Yng Nghanaan draw.

3 Anfeidrol ddwyfol ras,
A'm dwg i ma's yn wir,
O wlad y poen a'r cystudd mawr,
I'r Ganaan dir;
I gael fy llenwi fry
A phob nefolaidd ddawn,
A gwledda byth ymhlith y llu,
A mwrdd yn llawn.

HYMN X.

Gweddi am Nerth yn erbyn Gelynion mewn anial Dir.

1 O Tyr'd Ieſu i'r anialwch,
Arwain fi trwy ddw'r a thân;
Cael hi'n nefoedd ar y ddaear,
Nertha'm traed i fyn'd ymla'n:
Dyro brofiad, dyro brofiad, dyro brofiad,
O dy gariad gwerthfawr drud.

2 Dal fy enaid yn y rhyfel,
Yng ngwyneb y ſaethyddion blin;
Can's mae Og a chewri Baſan,
Yn fy erbyn bob yr un:
Bydd yn darian, &c. &c.
I filwr gwan yng ngrym y tân.

3 Yn dy law y gallaf ſefyll,
Yn dy law y dof i'r lan;
Yn dy law y byddaf rymmus,
Er nad ydwyf fi ond gwan:
Dal fi Arglwydd, &c. &c.
Yn erbyn byd ac uffern fawr.

4 Mae fy enaid gwan i'n crynu,
Wrth wel'd y cedyrn lawr dan draed,
A gweiniaid Iſrael yn gorchfygu,
A'r cewri'n gorwedd yn eu gwaed:
Bydd dy hunan, &c. &c.
Yn feddyg archolledig rhai.

5 Arglwydd, cwyd y rhai a ſyrthiodd,
Dal rhai ſy'n ſefyll ar eu traed;
Bydd yn fur o dân i'th bobol,
Fel bo'n ddiangol werth dy waed:
Yn y diwedd, &c. &c.
Dwg ni'n iach i ben ein taith.

HYMN XI.

Allan o'r Can. ii. 3. *Bu dda gennyf eiſtedd dan ei gyſgod ef.*

1 DAN dy gyſgod, fy Anwylyd,
Mae lle hyfryd iawn yn wir:
Fy enaid ſydd am aros yno,
Tra bwy'n teithio'r anial dir:
Congcweſt Criſt ar ben Calfaria,
Ydyw noddfa f'enaid gwan,
Yn ei glwyfau mae fy mywyd,
A nerth fy yſpryd ym mhob man.

2 Dan dy gyſgod, anwyl Ieſu,
'Rwyf am lechu ddydd a nos;
Nerth o hyd i dreulio'm orieu,
I fyfyrio ar angeu'r groes:
Dan dy gyſgod mae diogelwch,
A thawelwch rhyfedd iawn;
Yno hefyd mae diddanwch,
A hyfrydwch heddwch llawn.

3 Pan bo'r corwynt arnai'n curo,
Ne's fy ſiglo yma a thraw;
Tymeſtl fawr o bob tu'n chwythu,
Anwyl Ieſu rho dy law;
Tann dy aden droſwy'n gynnes,
A dwg fi yn dy ſynwes glyd,
Hyd ne's delwy' o'r tymheſtloedd,
I ardaloedd nefol fyd.

4 Mae fy nghalon yn hiraethu,
Am gael profi nefol flas
Ffrwythau graſol fy Anwylyd,
Sydd yn hyfryd darddu 'ma's:
Rho i'm henaid gwan gael gwledda,
Tra bwy yma ar fy nhaith,
O'r danteithion nefol hyfryd,
Sydd yn nhir y bywyd maith.

5 Ffrwythau

5 Ffrwythau peraidd pren y bywyd,
Sy'n adfywio'r yſpryd gwan,
Ac yn llonni'r pererinion,
Ar eu teithiau tu a'r lan:
Clwyfau'r Oen a'i gongcweſt nerthol,
Yw gwledd nefol pawb o'r ſaint;
Gwel'd ei wedd a'i foli'n hyfryd
Fydd eu gwynfyd byth a'u braint.

HYMN XII.

Yn annog i roddi'r Clod i'r IESU.

1 I'R Ieſu glân rhown glod,
Anrhydedd îs y rhod
Fo i'r addfwyn Oen:
Goſtyngodd ef ei ben,
I'n prynu ar y pren,
Gwnaeth ffordd i entrych nen,
Trwy ddirfawr boen.

2 Yr hwn fu ar y groes,
Yn godde' chwerw loes
Yr hoelion dur,
O nertha eiddil gwan,
I deithio tu a'r lan,
I mewn i'r hyfryd fan,
Caerſalem bur.

Rwy'n gwel'd yn rhyfedd fraint,
Gael cwrdd â neb o'r ſaint
Tu yma i'r bedd;
Ond mwy rhyfeddod fydd,
A hynny cyn bo hir,
Draw draw yng Nghanaan dir,
Mewn gwlad o hedd.

4 Y wlad ſydd fel y môr,
O gariad pur yn 'ſtor,
Yn llenwi'r lle:

O an

O am fod yno 'nawr,
Yng nghwmp'ni'm Iesu mawr,
A'm brodyr fel y wawr,
Sy' draw yn nhre'.

DIWEDD.

Daliwch sulw, Fod dau Ran etto o'r Hymnau i gael eu preintio ar Frys. Am hynny dymunir ar bwy bynnag a'u derbyniont, na bo iddynt eu rhwymo wrth Lyfrau eraill. Rhegid yr hwn a'i gwna yn amharchus ar Brynwr.

BOOKS PRINTED AND SOLD BY J. ROSS.

EVANS's New Engliſh-Welſh Dictionary. Price 5s. This Work has been approved by the beſt Judges, and is recommended to all ſuch as are deſirous of reading Engliſh Authors, but have not a competent knowledge of the language, or are defective of the Pronunciation.

Geir-Lyfr Yſgrythurol, neu Egwyddor, yn dangos arwyddoccad y rhan fwyaf o eiriau ac ymadroddion caled, a naturiaeth creaduriaid, a gynhwyſir yn yr hen Deſtament a'r Newydd, gan y Parchedig Mr. Wilſon. Pris Swllt.

Canwyll y Cymry; ſef Gwaith y Parch. Mr. Rees Prichard, gynt Ficer Llanymddyfri: at ba un y chwanegwyd, o Waith yr un Awdwr, Llofion y Parch. Mr. Griffith Jones, Llanddowror; ac ymha un y cynhwyſir hefyd Rhagymadrodd rhagorol y Parch. Mr. Stephen Hughes, na bu argraffedig yn un o'r argraffiadau diweddaf. Pris 2s. 6ch. wedi ei rwymo.

Eſponiad ar Ddammeg y Pharifead a'r Publican, na argraffwyd erioed o'r blaen yn Gymraeg. Pris 9c.

Taith y Pererin. Pris 9c.

Tyred a Groeſaw at Ieſu Grift. Pris 9c.

Aberth Cymmeradwy. Pris 6ch.

Ffigyſbren Anffrwythlon. Pris 4c.

Myfyrdodau ar y Pedwar Peth diweddaf.

Y Chwech uchod gan y Parch. Mr. J. Bunyan.

Golwg Ferr ar yr Hanes Yſgrythurol. Pris 2s. 6ch. wedi ei rwymo.

Salmau Dafydd. Pris 1s. 6ch. gwedi eu rhwymo.

Hymnau Dafydd. Pris 1s. 6ch. gwedi eu rhwymo.

Caniadau Dwyfol i Blant. Pris 3c.

Y Pedwar uchod gan y Parch. Dr. I. Watts.

Pigion Hymnau o waith yr Awdwyr hynottaf yn yr oes breſennol. Y Trydydd Argraffiad. Pris 9c.

Cateciſm Yſgrythurol, gan y Parch. Mr. M. Henry. Pris Swllt.

Deddfau Criſt'nogol, neu Ddidwyll Air Duw, gan y Parch. John Evans. Pris 2s. 6ch.

Meſurwr Cyffredinol, gan Mathew Williams, Meſurwr Tir, Llangadog. Pris 8c.

Hunan-Adnabyddiaeth, gan J. Maſon. Pris Swllt.

Pob Dyn ei Phyſygwr ei hun. Pris 6ch.

Bardd Cwſg. Pris 6ch.—Oes Lyfr. Pris 6ch.